# CYFARFOD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD RHWNG AELODAU PWYLLGOR PENSIYNAU CYNGOR GWYNEDD A CHYNRYCHIOLWYR Y CYFLOGWYR A'R UNDEBAU DYDD IAU, 24 TACHWEDD 2022

**Yn bresennol:**

**Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau**

Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, John Brynmor Hughes, Medwyn Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, John Pughe Roberts, Ioan Thomas, a Goronwy Edwards (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy)

**Aelodau'r Bwrdd Pensiwn**

Osian Richards a Sharon Warnes

**Cynrychiolwyr Cyflogwyr:**

Linda Jones (Medrwn Môn) ,Marc Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Geraint Owen (Menter Môn), Heledd Owens (Adra), Siân Owen (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Tina Earley (Cyngor Tref Bae Colwyn), Diana Burns (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy), Huw Jones (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy), Tony Walter (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy), Nia Jones (Cwmni Fran Wen), Rhys Parry (Adra), Elizabeth Thomas (Cyngor Sir Ynys Môn), Tracy Roberts (Ysgol Pen y Bryn), Samantha Pritchard (Ysgol Pen y Bryn) a David Lloyd-Williams (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

**Eraill a wahoddwyd**

Yvonne Thomas (Archwilio Cymru),

Alison Shaw Amanda Doyle, Heather Bolton, Alys Wardle a Dylan Clarke

**Staff sy'n Gwasanaethu'r Gronfa (Cyngor Gwynedd):**

Dafydd Edwards (Cyfarwyddwr y Gronfa), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), (Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau), Gwennan Medi Williams (Uwch Swyddog Pensiynau a Llywodraethu), Glesni Owen (Uwch Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau), Owain Pritchard (Swyddog Systemau Uned Bensiynau), Sara Jones (Cyfrifydd Cynorthwyol Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys), Dafydd Richard Owen (Arweinydd Tîm Gweithredol), Jennifer Mowle (Uwch Swyddog Pensiynau), Ayesha Trainor (Swyddog Pensiynau) Bronwen Williams (Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau), Neil Thomas (Cymhorthydd Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Stephen Churchman yn gadeirydd i'r cyfarfod.**

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Robin Williams (Cynrychiolydd Cyngor Ynys Môn), H Eifion Jones (Aelod Bwrdd Pensiwn), Sioned Parry (Aelod Bwrdd Pensiwn), Wendy Jones (Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy), Karen Nelson (Grŵp Llandrillo Menai), Rebecca (Menter Mon) Jo Cavill (Gyrfa Cymru), Geraint Owen (Cyngor Gwynedd), Alwen Williams (Bwrdd Uchelgais Economaidd), Gwyn Jones (Ysgol Eirias), Sue Hill (ABM Catering), Dave O'Neill (Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy), Nia Murray (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Carys Edwards Ynys Mon), Amanda Davies (Byw'n Iach), Sion Wyn Hughes (Cyngor Tref Caernarfon), Caren Byron (Gyrfa Cymru), Rachel Lees (Cyngor Tref Conwy) a Rick Mills (Cyhoedd)

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 4. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2021/22

Croesawyd pawb i gyfarfod blynyddol y Gronfa Bensiwn.

### Cyflwyniad Cyfarwyddwr y Gronfa

Adroddwyd bod gwerth y Gronfa Bensiwn wedi cynyddu o £2,528 miliwn i £2,776 miliwn a ystyriwyd yn gynnydd sylweddol o £248 miliwn yn ystod 2021/22. Ategwyd, er cyfnod yr ansicrwydd a oedd yn y marchnadoedd byd-eang yn nechrau 2020, cafwyd cyfnod hir o adferiad, ac er yn perfformio tu ôl i'r meincnod, cafwyd perfformiad cryf o 10.0% gan y Gronfa, sydd bellach yn y chwartel uchaf o'r cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol CPLlL *(cyf ystadegau swyddogol PIRC am 2021/22).*

### a) Gweinyddiaeth Pensiynau:

Yn ystod 2021/22 adroddwyd bod defnydd y system 'Fy Mhensiwn Ar-lein' yn cynyddu yn flynyddol, gyda dros 16,000 wedi cofrestru hyd yma ac oddeutu 500 o aelodau yn defnyddio'r safle pob mis. Anogwyd cyflogwyr i hyrwyddo'r safle yn y gweithle i sicrhau bod staff yn cymryd mantais o'r gwasanaethau a gynigir. Nodwyd bod cwmni meddalwedd yn y broses o greu fersiwn newydd o'r system hunan wasanaeth a bod bwriad o lansio'r system yn ystod Gwanwyn 2023 ynghyd ag ymgyrch i gynyddu aelodaeth y Gronfa. Eglurwyd bod yr Uned Weinyddu hefyd yn y broses o uwch-lwytho slipiau pensiwn y pensiynwyr i'r safle fydd yn galluogi'r pensiynwyr i weld eu slipiau pensiwn pob mis

Adroddwyd ar ddefnydd system i-Connect sydd yn diweddaru data tâl a chyfraniadau ar y system yn fisol. Ategwyd bod i-Connect yn darparu buddion sylweddol i aelodau CPLlL drwy gyflwyno data clir, cywir ac amserol a bod 100% o gofnodion aelodau yn cael eu diweddaru trwy'r system bellach. Diolchwyd i'r holl gyflogwyr am ddefnyddio'r system.

Tynnwyd sylw at Arolwg Boddhad Aelodau sydd yn cael ei anfon at aelodau'r Gronfa ar ddiwedd pob proses, e.e. ymddeoliadau a thalu ad-daliadau, i'r aelodau roi eu barn ar ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd ac am y gwasanaeth a ddarperir gan staff yr adran.

Adroddwyd bod dros 96% o aelodau unai yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ansawdd y gwasanaeth o safon uchel, a bod 98.12% o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan y staff o safon uchel. Er mwyn cyflawni'r sgoriau uchel hyn, nodwyd bod cydweithrediad y cyflogwyr yn hanfodol, a diolchwyd i'r cyflogwyr am eu parodrwydd i ddarparu'r wybodaeth yn brydlon.

**b) Perfformiad Buddsoddi**

Bod Gwerth Marchnad y Gronfa yn £1.9 Biliwn yn 2020 (ar ôl cwymp Covid Mawrth 2020). Erbyn diwedd Mawrth 2021, roedd Gwerth Marchnad y Gronfa yn £2.5 Biliwn (gyda'r farchnad stoc wedi atgyfodi i'w lefel cyn Covid erbyn diwedd Mai 2021). £2.775 Biliwn ar 31 Mawrth 2022) ond £2.628 Biliwn ar 30 Medi 2022 wedi 6 mis caled i'r farchnad stoc gyda'r dirwasgiad byd-eang

Wrth amlygu perfformiad y Gronfa yn erbyn y meincnod, nodwyd er bod methiant i guro'r meincnod yn siom, roedd hyn o ganlyniad i gael portffolio byd-eang gyda dibyniaeth mewn marchnadoedd datblygol (oedd yn cynnwys Rwsia a China), ac hefyd o'r penderfyniad i fuddsoddi mewn prosiectau sydd yn parchu'r amgylchedd yn hytrach na dal stociau ynni a thanwydd traddodiadol, sydd wedi ffynnu yn hinsawdd 2022. Er yn derbyn bod y rhain yn rhinweddau cyffredin ar draws cronfeydd y CPLlL, ategwyd, wrth gymharu perfformiad Cronfa Bensiwn Gwynedd gyda'r 86 o gronfeydd CPLlL ar draws Cymru a Lloegr, bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn safle 23ain am berfformiad 2021/22.

Wrth amlygu perfformiad hir-dymor y Gronfa, nodwyd, o gymharu ag eraill bod y perfformiad yn rhagorol ac wedi gwella dros y ddau ddegawd diwethaf. Amlygwyd mai un o'r ffactorau tu ôl i hyn oedd perfformiad cryf yr asedau twf, lle buddsoddwyd yn gymharol drwm mewn ecwiti. Ategwyd, oherwydd y sefyllfa gadarn, bod cyfle i gymryd camau i ddad-risgio, o wneud rhywbeth yn llai peryglus neu'n llai tebygol o olygu colled ariannol, a chadw rhai o enillion y blynyddoedd diweddar drwy symud o ecwiti i gategorïau eraill o asedau, megis isadeiledd, benthyca preifat, a bondiau corfforaethol.

**c) Cyd-weithio yng Nghymru**

Wrth drafod Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), adroddwyd bod y cydweithio yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 . Ers y cyfnod clo, amlygwyd bod holl ddigwyddiadau'r bartneriaeth wedi bod yn rhithiol, gyda swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd, y gwaith yn parhau, cronfeydd newydd wedi'u lansio a nifer o ddigwyddiadau wedi cymryd lle. Bellach mae 83% o Gronfa Bensiwn Gwynedd wedi ei bwlio gyda PPC gyda buddsoddiadau mewn pum is gronfa a buddsoddiadau mewn ecwiti byd-eang, incwm sefydlog a marchnadoedd datblygol. Trwy fanteision maint gweithredu fel aelod o bartneriaeth sydd a chyfanswm o dros ugain biliwn o asedau, ceir hyblygrwydd i fentro o fuddsoddiadau traddodiadol i amrywiol gategorïau o asedau amgen, a buddsoddi'n uniongyrchol ar farchnadoedd preifat.

**Cwestiwn**: Sut mae'r pwyllgor yn gweld y broses o weithio gyda Phartneriaeth Pensiynau Cymru, o ran effeithiolrwydd cyfathrebu'r gofynion o ran dad-fuddsoddi o danwydd ffosil?

**Ateb**: Bod cydweithio gyda PPC wedi darparu sawl cyfle i fuddsoddi'n fwy cyfrifol eleni; Enghraifft ddiweddar o hyn yw, ym Mhwyllgor Pensiynau 21/11/22 gwnaed penderfyniad i ddyrannu tua £250 miliwn yng nghronfa ecwiti cynaliadwy PPC, ac hefyd i fuddsoddi £10 Miliwn mewn prosiectau ynni glân yng Nghymru.

**ch) Buddsoddi Cyfrifol**

Cyfeiriwyd at bresenoldeb penaethiaid 120 gwlad yn Sharm El Sheikh ar gyfer Cop 27, i drafod atal cynhesu byd-eang. Ategwyd, ers Cop 26 Glasgow 2021, nad oedd cynnydd digonol wedi ei weld.

**Cwestiwn:** Wrth i COP27 ddod i ben, ni all unrhyw un fethu â gweld sut mae ein caethiwed i danwydd ffosil yn creu hafoc gyda bywyd ar draws ein Daear. Hoffwn ofyn i bwyllgor GPF eto i ddarparu datganiad ar swm eu buddsoddiadau mewn Tanwydd Ffosil. Yr amcangyfrif diwethaf o'u daliadau gan Gyfeillion y Ddaear oedd dros 51,500,000. Mae'r pwyllgor wedi anghytuno â'r ffigwr hwn ond heb ddarparu cyfrifiad arall eto ers gofyn am hyn dros flwyddyn yn ôl. Mae'r diffyg tryloywder hwn yn ei gwneud hi'n anodd asesu a yw'r Pwyllgor o ddifrif ynghylch datgarboneiddio ac yn cymryd camau go iawn i gyrraedd y nod hwnnw. Mae geiriau Prif Weinidog Barbados, Mia Mottley yn taro deuddeg. "Gofynnaf i bobl y byd ac nid dim ond yr arweinwyr, .. beth fyddwch chi'n dewis ei wneud? .. beth fyddwch chi'n dewis ei arbed?"

**Ateb:** Bod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi ymrwymo i fod yn sero net erbyn 2050 a hyn wedi'i gefnogi gan ymrwymiad i asesu dichonoldeb y Gronfa i gyrraedd sero net 5, 10 neu 20 mlynedd ynghynt. Er bod penderfyniad wedi ei wneud i beidio gosod targed cyn eleni, oherwydd;

a. bod athroniaeth meddylfryd systemau 'Ffordd Gwynedd' yn annog mesur cynnydd a chyfeiriad yn hytrach na gosod targedau,
b. bod awydd ystyried cynllun ar gyfer gweithredu cyn gosod targed.

Fodd bynnag, ym Mhwyllgor Pensiynau Mawrth 2022 cytunwyd gosod uchelgais effeithiol fyddai'n anelu at 2030. Cymeradwywyd polisi oedd yn ystyried ffactorau megis Canllawiau Cyfreithiol, Credoau Buddsoddi, Ymgysylltu, Datgelu ac adrodd a fframwaith i gefnogi Uchelgeisiau Hinsawdd y Gronfa. Ategwyd bydd y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd ('TCFD') yn rhyddhau canllawiau yn 2023 a'r osod fframwaith safonol ddefnyddiol i fesur y sefyllfa yn deg.

**Cwestiwn**: Yn gynharach eleni, pasiodd Llywodraeth Cymru rybudd y byddai'n gweithio â'r sector cyhoeddus i gytuno ar strategaeth i ddatgarboneiddio pensiynau erbyn 2030. Ydy hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth yn llwybr Cronfa Bensiwn Gwynedd tuag at ddatgarboneiddio, a pha gynnydd sydd wedi'i wneud tuag at ddatgarboneiddio hyd yma?

**Ateb:** Tra bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn anelu at ddatgarboneiddio erbyn 2030, ni ellid argyhoeddi y bydd datgarboneiddio llwyr yn bosib erbyn 2050, heb sôn am 2030. Er bwriad symud yn gyflym tuag at ddatgarboneiddio portffolio

Cronfa Gwynedd, adroddwyd bod y Pwyllgor eisoes wedi cymryd camau bras i fuddsoddi'n fwy cyfrifol. Amlygwyd, yn 2015 cafodd y TCFD ei greu mewn ymateb i gydnabyddiaeth bod marchnadoedd yn methu prisio cyfleodd a risgiau hinsawdd heb wybodaeth ariannol cywir sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Ategwyd bod Pwyllgor Pensiynau Gwynedd a'r PPC wedi ymateb yn gefnogol i ymgynghoriad diweddar gan y TCFD am gynigion yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol y CPLlL asesu, rheoli ac adrodd ar risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Disgwylir i'r rheoliadau ddod i rym Ebrill 2023.

**Cwestiwn:** O ystyried bod Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i adrodd ar allyriadau buddsoddi sgôp 3, a oes gennych chi ffigwr pendant ar gyfer allyriadau sgôp 3 Cronfa Bensiwn Gwynedd eto, ac os ddim, pa bryd fydd y ffigwr yna gennych chi?

**Ateb**: Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithio gyda chronfeydd pensiwn i leihau allyriadau carbon perthnasol i'w buddsoddiadau. Ategwyd bod Llywodraeth Cymru hefyd yn annog awdurdodau lleol i adrodd ar allyriadau sgôp 3, sydd heb eu cynhyrchu gan yr awdurdod ei hun, na'r asedau mae'n berchen arno, ond gan gyflenwyr a defnyddwyr yn y gadwyn brisio. Nodwyd bod cryn her i adnabod allyriadau sgôp 3 y Gronfa, gan fod rhwystrau at gael at y data priodol e.e., dim gorfodaeth ym Mhrydain ar denantiaid eiddo busnes i gyflwyno gwybodaeth i landlord o gymharu, er enghraifft, gyda Ffrainc, lle mae'r Llywodraeth wedi gorfodi busnesau i ryddhau'r wybodaeth.

**Cwestiwn:** Sut mae'n teimlo, yn y diwylliant hwn sy'n newid yn gyflym, i reoli cyfeiriad Cronfa Bensiwn Gwynedd, gyda'r potensial i ddylanwadu ar fuddsoddiadau pensiwn ledled y DU tuag at fuddsoddiadau gwirioneddol gyfeillgar o ran natur?

**Ateb**: Adroddwyd, ei bod yn deimlad da ceisio gwneud gwahaniaeth gan ddylanwadu a buddsoddi mewn prosiectau ynni gwyrdd, buddsoddi o'r newydd mewn cronfeydd cynaliadwy, gweithio gyda'r cwmnïau buddsoddi sy'n rheoli asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd er mwyn addasu'r portffolio i fod yn 'Paris aligned', ayb. Er hynny, nodwyd rhwystredigaeth fod diffyg data dibynadwy er mwyn tystiolaethu'r camau sylweddol sydd wedi cymryd mewn blynyddoedd diweddar, ac i fesur effaith penderfyniadau cyffrous mae'r Pwyllgor wedi eu gwneud yn ddiweddar. Ategwyd mai da fyddai cael modd o ddangos y cynnydd yn fesuradwy, a bod hwn yn ddarn o waith sydd ar y gweill.

**d) Prisiad Teirblynyddol 2022**

Cyflwynwyd gwybodaeth yn amlinellu canlyniad Prisiad Teirblynyddol o'r Gronfa gan amlygu bod staff y Gronfa bellach wedi darparu gwybodaeth a'r actiwari wedi cyfrifo'r data. Nodwyd bod dros ddeugain o gyflogwyr wedi cael gwybod lefel eu cyfraniadau pensiwn ar gyfer 2023 mewn Fforwm Cyflogwyr gyda'r Actiwari ar y 26ain o Hydref 2022. Amlygwyd hefyd bod y sefyllfa ariannu wedi gwella i 120% (o 108% yn 2019), gyda hyn yn cymharu'n ffafriol iawn gyda chronfeydd CPLlL eraill. Atgoffwyd pawb bod y lefel ariannu yma yn ystyried y gorffennol, ac mai cost pensiynau i'r dyfodol sydd bennaf yn gyrru cyfradd cyfraniadau pensiwn cyflogwyr.

Adroddwyd, ar draws Prydain, bydd cyflogwyr yn wynebu blwyddyn gyllidol anodd yn 2023. Y gobaith yw y bydd y gostyngiad yng nghyfradd cyfraniadau pensiwn prif gyflogwyr ein rhanbarth yn hwb wrth iddynt geisio mantoli'r gyllideb a

cheisio osgoi'r elfen o dorri gwasanaethau. Ategwyd bod canlyniadau'r cyflogwyr llai yn amrywio ychydig, ond nad oedd neb yn wynebu cynnydd sylweddol yn eu cyfradd cyfraniadau pensiwn, gyda mwyafrif o'r cyflogwyr yn gweld gostyngiad bychan.

**dd) Camau nesaf**

Tynnwyd sylw at Ymgynghoriad Datganiad Strategaeth Cyllido - Ionawr 2023

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud ag asesu dichonoldeb targedau net sero gan ystyried mesur cynnydd yn flynyddol, nodwyd bod cwmni Hymans wedi cael ei gomisiynu i ganfod mesurydd addas. Ategwyd bod hyn ar waith ac mai un o'r rhwystrau oedd derbyn ffigyrau cyson.

Nododd y Cadeirydd bod y perfformiad yn un da a bod hyn yn adlewyrchu gwaith a chyngor y swyddogion. Ategwyd bod cydweithio da ymysg Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a bod Aelodau'r Bwrdd Pensiwn yn ychwanegu gwerth drwy gynnig trosolwg a chyngor. Nododd hefyd bod ymuno a PPC wedi arwain at ganlyniadau da.

**PENDERFYNWYD DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN AM 2021/22**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 10.50 y.b.

**CADEIRYDD**